# Cwestiynau Ysgrifenedig y Cynulliad i'w hateb ar 18 Mawrth 2002

**R yn dynodi bod yr Aelod wedi datgan buddiant.**
**W yn dynodi bod y cwestiwn wedi'i gyflwyno yn Gymraeg.**

**(Dangosir rhif gwreiddiol y cwestiwn mewn cromfachau)**

Gofyn i Brif Weinidog Cymru

**Michael German (Dwyrain De Cymru);** Yn ogystal â’r rhai yn Efrog Newydd, Tokyo, San Francisco a Hong Kong, ymhle’r ydych yn gobeithio lleoli canolfannau ‘Cymru Rhyngwladol’ eraill, a phwy fydd yn gweithio ym mhob un ohonynt. (WAQ16665)

Gofyn i Weinidog y Cynulliad dros Faterion Gwledig

**Peter Rogers (Gogledd Cymru);** Mewn perthynas â’i ateb i WAQ16446 bod y cais am fy natganiadau i’r wasg wedi’i "wneud yn agored" i’m swyddfa i, a wnaiff gadarnhau bod ei swyddogion wedi gofyn i Aelod arall o’r Cynulliad am y wybodaeth cyn cysylltu â’m swyddfa i. (WAQ16662)

**Peter Rogers (Gogledd Cymru);** A wnaeth unrhyw swyddog(ion) o’r Cynulliad a oedd yn gweithredu o dan y cytundeb asiantaeth gyda MAFF yn ystod argyfwng clwy’r traed a’r genau ddweud neu awgrymu wrth unrhyw ffermwr bod ganddynt yr hawl i gael mynediad i ddaliad gyda’r bwriad o ladd anifeiliaid. (WAQ16664)

**Peter Rogers (Gogledd Cymru);** Mewn perthynas â’i ateb i WAQ164476, a wnaiff restru’r erthyglau papur newydd hynny y mae’n cyfeirio atynt. (WAQ16663)

Gofyn i Weinidog y Cynulliad dros Iechyd a Gwasanaethau Cymdeithasol

**Alun Cairns (Gorllewin De Cymru);** Pa amserlen y gellir ei disgwyl o ran diffinio cyfrifoldebau allweddol y swyddi uwch mewn swyddfeydd rhanbarthol a ddaw yn sgîl y diwygiadau arfaethedig i'r Gwasanaeth Iechyd y sonnir amdanynt yn WAQ16156. (WAQ16672)

Gofyn i Weinidog y Cynulliad dros Ddatblygu Economaidd

**Alun Cairns (Gorllewin De Cymru);** A wnaiff y Gweinidog ddatganiad ynghylch unrhyw gynllun Amcan 1 sydd â'r nod o garthu Camlas Castell-nedd. (WAQ16673)

Gofyn i Weinidog y Cynulliad dros Addysg a Dysgu Gydol Oes

**Gareth Jones (Conwy);** A oes bwriad gan Lywodraeth y Cynulliad i addasu'r Cod Ymarfer ar Dderbyniadau i ysgolion cyfrwng Cymraeg fel nad oes modd dethol ar sail cymhwysedd yn yr iaith Gymraeg. (WAQ16666) **W**

**Gareth Jones (Conwy);** Pa asesiad sydd wedi bod o'r costau ychwanegol i ysgolion cyfrwng Cymraeg o addysgu disgyblion heb gymhwysedd yn yr iaith Gymraeg. (WAQ16667) **W**

**Gareth Jones (Conwy);** Pa gymorth ariannol sydd ar gael i ysgolion i gynnig hyfforddiant ieithyddol i ddisgyblion i'w galluogi i dderbyn addysg cyfrwng Cymraeg. (WAQ16668) **W**

**Gareth Jones (Conwy);** Beth yw'r canllawiau presennol ar y cymhwysedd angenrheidiol yn yr iaith Gymraeg er mwyn ennill mynediad i ysgol uwchradd cyfrwng Cymraeg. (WAQ16669) **W**

**Gareth Jones (Conwy);** A oes yna ymgynghoriad wedi cymryd lle ar newidiadau arfaethedig i'r Cod Ymarfer ar Dderbyniadau i Ysgolion a beth yw canlyniadau'r broses ymgynghori honno. (WAQ16670) **W**

**Gareth Jones (Conwy);** Pa gynlluniau sydd gan Lywodraeth Cymru i newid y canllawiau ar dderbyniadau i ysgolion cyfrwng Cymraeg. (WAQ16671) **W**

Gofyn i Weinidog y Cynulliad dros Ddiwylliant, Chwaraeon a'r Gymraeg

**Jonathan Morgan (Canol De Cymru)**; Sut y caiff Cerddorfa Siambr ‘newydd’ Cymru ei monitro. (WAQ16674)

**Jonathan Morgan (Canol De Cymru)**; Pa dargedau sydd wedi’u gosod ar gyfer Cerddorfa Siambr ‘newydd’ Cymru. (WAQ 16675)

**Jonathan Morgan (Canol De Cymru)**; Pryd y gofynnwyd i’r Cabinet gymeradwyo rhoi cyllid uniongyrchol i Gerddorfa Siambr ‘newydd’ ar gyfer Cymru. (WAQ16676)

**Jonathan Morgan (Canol De Cymru)**; Sut y mae’r penderfyniad i gyllido Cerddorfa Siambr ‘newydd’ i Gymru yn cydblethu â Strategaeth Ddiwylliant y Gweinidog ac â’r ddogfen ‘Diwylliant Cytûn’. (WAQ16677)